

Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda:**

**Cyfarwyddiaeth Gofal Heb
ei Drefnu Ysbyty Bronglais
Camau Dilynol**

Dyddiad arolygu: 7 Medi 2016

Dyddiad cyhoeddi: 9 Rhagfyr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	5
4.	Crynodeb	6
5.	Canfyddiadau	7
	Ansawdd Profiad y Claf	7
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
6.	Y Camau Nesaf.....	122
	Atodiad A.....	133

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu cyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.


Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd dilynol o Adran Damweiniau ac Achosion Brys y Gyfarwyddiaeth Gofal Heb ei Drefnu o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 7 Medi 2016.

2. Methodoleg

Mae amrywiaeth o ddulliau a methodolegau ar gael inni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, ac rydym yn dewis y rhai mwyaf priodol yn ôl amrywiaeth ac ystod y gwasanaethau yr ydym yn bwriadu eu harolygu. Mae arolygiadau trylwyr o un ward yn caniatáu inni gymryd golwg hynod fanwl ar agwedd fach ar ddarpariaeth o ofal iechyd, tra bo'r sylw cynyddol a gynigir trwy ymweld â nifer fwy o wardiau ac adrannau'n ein galluogi i gynnal asesiad mwy cadarn o themâu a phroblemau o ran y bwrdd iechyd dan sylw. Yn y ddau achos, caiff adborth ei wneud ar gael i wasanaethau iechyd mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) yn ganolog i ddull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1



Mae arolygiadau o ysbytai'r GIG yn ddirybudd, ac rydym yn arolygu ac yn adrodd mewn perthynas â thair thema:

- **Ansawdd Profiad y Claf:**
Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol:**
Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.
- **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth:**
Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain mewn perthynas â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Cynhaliwyd yr arolygiad dilynol o'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gan arolygydd AGIC.

Gwnaethom gasglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Sgyrsiau â staff
- Arsylwadau cyffredinol ar yr amgylchedd gofal a'r arferion gofal
- Trafodaethau ag uwch-reolwyr yn y gyfarwyddiaeth
- Ystyried prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd.

3. Cyd-destun

Roedd yr ymweliad hwn yn un dilynol ar ôl arolygiad a wnaed ar 11 a 12 Awst 2015. Diben ein hymweliad ar yr adeg hon oedd ystyried i ba raddau y gwnaed cynnydd wrth roi sylw i'r gwelliannau a nodwyd yn ein hadroddiad o 2015. Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y cynnydd a wnaed ers ein hymweliad blaenorol, gwnaethom gael daith o'r adran, arsylwi ar arferion gofal, a siarad â rheolwr y ward a staff. Ni wnaethom nodi unrhyw feysydd pellach i'w gwella ar yr achlysur hwn.

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ym mis Hydref 2009 yn dilyn Rhaglen Ddiwygio'r GIG 2008-2009, a gyflwynodd ofal iechyd integredig i Gymru. Lleolir y bwrdd iechyd yn ne-orllewin Cymru ac mae'n darparu gwasanaethau gofal iechyd i'r boblogaeth ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro – cyfanswm poblogaeth o 375,320 o bobl. Mae hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i drigolion de Gwynedd a Phowys. Mae'n darparu gwasanaethau aciwt, sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac anableddau dysgu drwy ysbytai cyffredinol a chymunedol, canolfannau iechyd, meddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr ac optometryddion.

Lleolir Ysbyty Cyffredinol Bronglais yn Aberystwyth, gorllewin canolbarth Cymru. Mae gan yr ysbyty 138 gwely ac mae'n darparu amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleusterau i gleifion mewnol a chleifion allanol a gwasanaethau iechyd meddwl, ynghyd ag Adran Damweiniau ac Achosion Brys 24 awr sydd wedi'i lleoli mewn uned newydd a adeiladwyd yn bwrpasol.

4. Crynodeb

O ran profiad y claf, nid oedd unrhyw welliannau a nodwyd yn adroddiad 2015 a oedd angen eu hadolygu. Fodd bynnag, gwnaethom ddefnyddio'r cyfle i gymryd taith o'r adran, arsylwi ar ofal cleifion, a siarad â staff a rheolwr yr uned. Gwelsom fod cleifion yn derbyn gofal mewn ffordd urddasol ac amserol. Gwnaethom hefyd arsylwi ar staff yn darparu gofal mewn ffordd barchus a phroffesiynol.

Nodwyd nifer o feysydd i'w gwella yn adroddiad 2015 o ran darparu gofal diogel ac effeithiol. Roeddem yn siomedig i ddarganfod, er bod rhywfaint o welliant, bod rhai pryderon o hyd yn bodoli ynghylch darparu gofal diogel, urddasol ac amserol sydd wedi'i alinio gyda'r Safonau Iechyd a Gofal, yn enwedig o ran defnyddio ardal benodedig i ddarparu gofal i gleifion sy'n aros i gael mynediad at y prif ysbyty. Fodd bynnag, cafodd AGIC sicrwydd o hyd bod canlyniadau cyffredinol ar gyfer cleifion yn effeithiol. Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon bod y strwythur staff yn ddigonol a bod staff o bob gradd yn gweithio'n ddiwyd i wella darpariaeth y gwasanaeth ac i sicrhau bod cleifion yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u cefnogi. Ni nodwyd unrhyw feysydd newydd i'w gwella. Fodd bynnag, mae AGIC wedi gofyn am sicrwydd ysgrifenedig o ran statws y bwrdd iechyd mewn perthynas â gweithredu ar y cynlluniau gwella gwreiddiol.

Canfuom fod arweinyddiaeth a rheolaeth yn weladwy ac yn effeithiol. Roedd trafodaethau â staff yn dangos bod perthnasau staff wedi gwella, ond roedd o hyd pryderon ynghylch niferoedd staff. Roedd trafodaethau gyda staff uwch yn sicrhau AGIC bod ffyrdd arloesol o recriwtio staff yn parhau i gael eu gweithredu gyda lefelau amrywiol o lwyddiant. Eto, ni nodwyd unrhyw feysydd newydd i'w gwella. Fodd bynnag, mae AGIC wedi gofyn am sicrwydd ysgrifenedig o ran statws y bwrdd iechyd wrth weithredu'r cynlluniau gwella gwreiddiol.

Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

O ran profiad y claf, nid oedd unrhyw welliannau wedi'u nodi yn adroddiad 2015 a oedd angen eu hadolygu. Fodd bynnag, gwnaethom ddefnyddio'r cyfle i gymryd taith o'r adran, arsylwi ar ofal cleifion, a siarad â staff a rheolwr yr uned. Gwelsom fod cleifion yn derbyn gofal mewn ffordd urddasol ac amserol. Gwnaethom arsylwi hefyd bod staff yn darparu gofal mewn ffordd barchus a phroffesiynol. Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella ar yr achlysur hwn.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Nodwyd nifer o feysydd i'w gwella yn adroddiad 2015. Roeddem yn siomedig i ddarganfod, er bod rhywfaint o welliant wedi bod, bod rhai pryderon o hyd yn bodoli o ran darparu gofal diogel, urddasol ac amserol sydd wedi'i alinio gyda'r Safonau Iechyd a Gofal. Fodd bynnag, cawsom sicrwydd bod y canlyniadau cyffredinol ar gyfer cleifion yn effeithiol. Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon bod y strwythur staff yn ddigonol a bod staff o bob gradd yn gweithio'n ddiwyd i wella darpariaeth y gwasanaeth ac i sicrhau bod cleifion yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u cefnogi. Ni nodwyd unrhyw feysydd newydd i'w gwella. Fodd bynnag, mae AGIC wedi gofyn am sicrwydd ysgrifenedig ynghylch statws y bwrdd iechyd o ran gweithredu ar y cynlluniau gwella gwreiddiol.

Gofal diogel

Mae pobl yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion o ran maeth a hydradu, er mwyn gwella cymaint â phosibl ar ôl afiechyd neu anaf (Safon 2.5).

Cyrhaeddodd yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys am 10am a chanfuom fod yr adran yn gweithredu gyda niferoedd digonol o staff a bod cleifion yn cael eu gweld mewn ffordd urddasol ac amserol. Nid oedd unrhyw gleifion ar yr adeg honno'n aros am frechwast neu fyrbrydau. Roedd trafodaethau gyda staff yn dangos bod gwelliannau wedi bod yn y ffordd y darparwyd prydau o fwyd i'r uned. Mae AGIC yn fodlon bod y bwrdd iechyd wedi monitro amseroedd darparu prydau bwyd o'r gegin i'r uned Damweiniau ac Achosion Brys a bellach yn gallu cadarnhau bod cleifion yn derbyn prydau bwyd cynnes rheolaidd.

Gwnaethom siarad â staff ynghylch sicrhau bod y bwyd a gynigir yn briodol i anghenion cleifion a dywedwyd wrthym fod gwelliant wedi bod yn y fwydlen a oedd yn galluogi mwy o ddewis i gleifion ag anawsterau llyncu.

Mae pobl yn derbyn meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni, a hynny ar yr amser cywir (Safon 2.6).

Roeddem yn fodlon bod diogelwch yr ystafell feddyginiaeth wedi cael ei wella. Ni welsom staff, heblaw am y rheiny oedd eu hangen i roi meddyginiaeth, yn mynd i'r ystafell. Dywedwyd wrthym, yn dilyn yr arolygiad, bod rheolwr y ward wedi atgyfnerthu pwysigrwydd diogelwch a mynediad cyfyng.

Gofal effeithiol

Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar safonau clinigol (Safon 3.5).

Gwnaethom drafod cofnodion cleifion electronig gyda staff a dywedwyd wrthym nad oedd hyn wedi cael ei weithredu. Nid oeddem yn gallu cadarnhau ar y diwrnod a oedd y gwaith blaenorol a wnaed ar gofnodion digidol cleifion wedi cael ei adolygu fel yr awgrymwyd yn y cynllun gweithredu, ac nid oeddwn yn gallu gwirio a oedd achos busnes wedi cael ei ailgyflwyno ar gyfer ystyriaeth fel rhan o'r rhaglen ceisiadau cyfalaf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd ddiweddarau AGIC ynghylch y cynllun strategol ar gyfer cofnodion cleifion digidol ar gyfer yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

Gofal gydag urddas

Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle caiff pawb eu trin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd, ac mewn modd sy'n cydnabod anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigol(Safon 4.1).

Cawsom ein dangos a dywedodd staff wrthym mai'r trefniadau i atal cleifion rhag derbyn gofal mewn coridorau oedd symud y cleifion i uned fach rhwng y brif Adran Damweiniau ac Achosion Brys a'r ardal lle y mae cleifion yn mynychu ar gyfer mowldiadau plaster ar gyfer esgyrn sydd wedi torri. Dywedwyd wrthym y gallai cleifion fod yn aros am fynediad i ward yn yr ardal am dros 23 awr. Oherwydd yr angen anrhagweladwy ar gyfer y gwelyau hyn (yn dibynnu ar argaeledd gwelyau yn yr ysbyty), byddai staff naill ai'n cael eu cymryd i ffwrdd o'r brif Adran Damweiniau ac Achosion Brys i ddarparu gofal neu byddai cais yn cael ei wneud am staff asiantaeth. Roedd yr ardal yn eithaf ynysedig, i ffwrdd o'r brif adran; roedd hyn yn golygu bod staff yn aml yn gofalu am gleifion bregus heb gymorth meddygol yn syth. Nododd staff hefyd eu bod yn teimlo'n agored i niwed wrth weithio yn y maes hwn oherwydd diffyg cefnogaeth a gweledigrwydd. Roedd y defnydd o staff asiantaeth i gyflenwi'r ardal hon, nad oeddent weithiau yn nyrsys damweiniau ac achosion brys profiadol, yn bryder i reolwr y ward.

Gwnaethom nodi hefyd bod dim ond un tŷ bach at ddefnydd cleifion yn yr ardal hon, nad oedd yn addas ar gyfer gofal urddasol a pharchus. Ni chafodd AGIC eu sicrhau bod y gwelliant hwn wedi cael ei weithredu'n foddhaol.

Mae angen i'r bwrdd iechyd ailymweld â'i gynllun gweithredol ar gyfer yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys (hyd at 23 awr) ac ailystyried yr ardal amgen a ddefnyddir ar gyfer cleifion sy'n aros yn hirach (dros 23 awr).

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Canfuom fod arweinyddiaeth a rheolaeth yn weladwy ac yn effeithiol. Roedd trafodaethau â staff yn dangos bod perthnasau staff wedi gwella. Fodd bynnag, roedd pryderon o hyd ynghylch niferoedd staff. Roedd trafodaethau â staff uwch yn sicrhau AGIC bod ffyrdd arloesol o recriwtio staff yn parhau i gael eu gweithredu gyda lefelau amrywiol o lwyddiant. Ni nodwyd unrhyw feysydd newydd i'w gwella. Fodd bynnag, mae AGIC wedi gofyn am sicrwydd ysgrifenedig o ran statws y bwrdd iechyd mewn perthynas â gweithredu'r cynlluniau gwella gwreiddiol.

Staff ac adnoddau

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff â'r wybodaeth a sgiliau cywir ar gael ar yr amser cywir i ddiwallu anghenion (Safon 7.1).

Roedd trafodaethau â staff yn dangos bod problemau'n parhau o ran niferoedd staff ond, ar ddiwrnod yr arolygiad dilynol, roedd cyflenwad llawn o staff parhaol ar ddyletswydd.

Roedd trafodaeth bellach â'r pennaeth nyrsio ar gyfer safle Ysbyty Bronglais yn cadarnhau bod y bwrdd iechyd yn parhau i ymdrechu i recriwtio staff mewn ffyrdd arloesol.

Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (Safonau Iechyd a Gofal, Rhan 2, Tudalen 8).

Gwnaethom siarad â rheolwr y ward a'r pennaeth nyrsio ac roeddem yn fodlon bod y pryderon staff, a nodwyd yn ystod arolygiad 2015, wedi cael eu datrys yn y tymor byr a bod cynlluniau mwy hirdymor ar waith i gefnogi'r gwelliant parhaus. Cafodd meysydd ar gyfer datblygiad a hyfforddiant staff unigol eu nodi drwy oruchwyliaeth ac arfarniadau blynyddol. Roeddem hefyd yn fodlon bod y pryderon hyn, ar adegau, wedi cael eu hymdrin â nhw mewn ffordd amserol ac effeithiol.

Gwelsom fod canllawiau pryder y GIG, sef "Gweithio i Wella", bellach ar gael i gleifion mewn ardaloedd gwahanol o'r uned. Mae AGIC felly'n fodlon bod hyn wedi cael ei weithredu.

5. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno hwn i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn systemig ar draws adrannau/unedau eraill o fewn y sefydliad ehangach.

Mae angen i'r camau a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig, ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r gwasanaeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A

Arolygiad Ysbyty: Cynllun Gwella

Ysbyty: Bronglais

Ward / Adran: Gofal Heb ei Drefnu (Adran Damweiniau ac Achosion Brys)

Dyddiad yr arolygiad: 7 Medi 2016

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd Profiad y Claf			
	Dim angen gwneud unrhyw welliannau.			
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol			
Tudalen 9	Mae angen i'r bwrdd iechyd ddiweddarau AGIC ynghylch y cynllun strategol ar gyfer cofnodion cleifion digidol ar gyfer yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Safon 3.9	Ar hyn o bryd, yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, pan fo claf yn cofrestru yn y dderbynfa, caiff cerdyn papur i'r claf ei argraffu o'r system Myrddin CiS sy'n cynnwys manylion demograffig y claf, manylion am y broblem feddygol, a manylion y meddyg teulu. Mae'r	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwybodeg	Hydref 2017

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		argraffiad yn cael ei gymryd gan staff clinigol a'i ychwanegu ato â llaw wrth i'r claf symud drwy'r adran, ac felly mae hyn yn nodi cofnodion ac arsylwadau clinigol. I wella mynediad at gofnodion a lleihau gofynion storio, mae staff yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn sganio cerdyn y claf a'r dogfennau cysylltiedig i yriant rhwydwaith a rennir. Dros y 12 mis diwethaf, mae 32,185 o sganiau wedi cael eu lanlwytho, gyda chofnodion hŷn hefyd yn cael eu storio yn y ffordd hon. Gellir crynhoi'r datrysiad cyfredol isod: • Yn ogystal â'r cardiau cleifion Myrddin, mae'r adran hefyd yn sganio: • Canlyniadau o archwiliadau radioleg, patholeg a chardioleg • Ffurflenni mynediad ambiwlans • Ffurflenni asesu iechyd meddwl • Ffurflenni arsylwi. • Mae'r lle sydd wedi'i lenwi gan y datrysiad ar hyn o bryd dros 10GB a, thros gyfnod o bum mlynedd, byddai angen i le storio o 50GB.		

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		• Llungopiwr Ricoh MP4002SP yw'r sganiwr sy'n cael ei ddefnyddio ac mae'n gysylltiedig â rhwydwaith y bwrdd iechyd o dan gytundeb prydlesu â gwasanaeth llawn. • Mae sganiau'n cael eu storio fel delweddau TIFF gydag eglurder llun o 600dpi ac maent yn eglur ac yn ddarllenadwy. • Mae pob sgan yn cael ei storio yn erbyn y rhif ysbyty a dyddiad ac amser y sgan (e.e. E1234567_201506231001) mewn ffolder sydd wedi'i drefnu yn ôl blynnyddoedd, misoedd ac yna dyddiau. • Caiff ffeiliau eu storio ar ffeil rwydweithiol a rennir yn Ystafell Gweinydd Bronglais. • Cedwir cofnodion papur am 12 mis ac yna cânt eu dinistrio. • Gellir dod o hyd i gofnodion drwy chwilio am y rhif ysbyty yn Windows Explorer i ddod o hyd i unrhyw ddogfennau sydd wedi cael eu sganio gan yr adran. • Agorir dogfennau drwy ddefnyddio'r rhaglen Windows Picture Viewer sydd eisoes ar y cyfrifiadur. Mae'r system wedi hyrwyddo nifer o fuddiannau,		

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gan gynnwys cael mynediad at gofnodion er mwyn datrys cwynion a dilysu tor-rheolau, a bydd yn cael ei hadolygu yn y flwyddyn ganlynol i nodi unrhyw welliannau a fyddai'n ychwanegu gwerth at y gwasanaeth.		
Tudalen 10	Mae angen i'r bwrdd iechyd ailymweld â'i gynllun gweithredol ar gyfer yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys (hyd at 23 awr) ac ailystyried yr ardal amgen a ddefnyddir ar gyfer cleifion sy'n aros yn hirach (dros 23 awr). Safon 4.1	Mae'r cynllun capasiti Ymchwydd Ysbyty'n cynnwys nifer o opsiynau'n dibynnu ar ddifrifoldeb cyflwr cleifion a hefyd argaeledd staff. Yr ardal ymchwydd yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yw'r cyfleuster Mân Anafiadau, sydd â chapasiti am hyd at bedwar claf ac sy'n gallu peryglu llif yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Mae hyn yn cael ei fantoli yn erbyn y buddiannau/risgiau o ddefnyddio'r Uned Adfer Llawdriniaeth Ddydd (sy'n darparu ar gyfer hyd at wyth o gleifion), a allai beryglu'r ddarpariaeth o ofal dewisol. Mae angen staff ychwanegol i staffio'r ardal a gellir penodi staff asiantaeth i ardaloedd eraill i ryddhau staff parhaol i weithio yn yr uned. Mae'r cynllun ymchwydd safle manwl yn nodi lefel yr awdurdod a gofynion staff ar gyfer pob ardal ymchwydd bosibl. Bydd y protocol ymchwydd yn cael ei adolygu.	Rheolwr Cyffredinol / Cyfarwyddwr yr Ysbyty Rheolwr	Rhagfyr 2016 Tachwedd 2016

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais i wella llif cleifion i atal y defnydd o ymchwydd ar sail reolaidd, ac mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys prosiectau fel: • Symbolau symudedd ar gyfer pob claf sy'n diffinio anghenion symudedd pob claf • Prosiect dydd coch a gwyrdd peilot sy'n mesur y rheolaeth weithredol o lwybrau cleifion yn ddyddiol • Cyfarfodydd llif cleifion rheolaidd gyda byrddau iechyd cyfagos ac apwyntiadau ar y cyd i sicrhau llif cleifion • Cyflogi aseswr gwaith cymdeithasol integredig a gweithiwr cymdeithasol i'r tîm rhyddhau.	Cyffredinol / Cyfarwyddwr yr Ysbyty Rheolwr Cyffredinol Gwasanaethau Cymunedol	Tachwedd 2016
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth			
	Dim angen gwneud unrhyw welliannau.			

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (llythrennau bras): Mandy Davies

Teitl: Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf Dros Dro

Dyddiad: 16 Tachwedd 2016

